COFNODION Y CYNGOR: Busnes Agored
12.30 p.m., Dydd Llun 25 Ionawr 2021
Cynhaliwyd mewn lleoliadau amrywiol, trwy feddalwedd Microsoft Teams

Busnes Agored y Cyngor – cofnodion 1 i 14 yn gynwysedig.

1. Presenoldeb ac Ymddiheuriadau

Yn bresennol: John Graystone (yn Cadeirio), Toni Schiavone (Is-Gadeirydd), Caroline Davies, Tim Palazon, Sonia Reynolds (Is-Gadeirydd – hyd at gofnod 6 yn unig), Cathy Clark, Gareth Cork, Jenni Jones-Annetts, Suzanne Samuel, Daryl Leeworthy, Jan Tiley, Stephen Nicholls, Judith Evans, Marion Burke, Steve David, Chris Franks. Roedd cworwm trwy gydol y cyfarfod.
Yn mynychu: Kathryn Robson (Prif Weithredwr), Cath Hicks (Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau), Mark Baines (Pennaeth y Cwricwlwm a Pherfformiad), Stephen Thomas (Ysgrifennydd / Clerc y Cwmni); Siôn Aled Owen (Cyfieithydd – cyfieithu olynol).
Hefyd: Bill Griffiths (dysgwr a chadeirydd cangen Llanelli) a Ray Neil (Swyddog Datblygu'r Cwricwlwm) - cofnodion 1 a 2 yn unig; Duncan Holtom (ymchwilydd, 'People and Work') - cofnodion 1 i 3.
Ymddiheuriadau: Salamatu Fada, Dona Lewis.

2. Cangen Llanelli a'r profiad dysgu ar-lein

Disgrifiodd Bill Griffiths ei brofiadau ef a phobl eraill o addasu i gyrsiau cangen Cymdeithas Addysg y Gweithwyr Llanelli – gwleidyddiaeth, hanes, celf a gwerthfawrogi cerddoriaeth – wedi iddynt symud i'w cynnal ar-lein. Roedd diffygion achlysurol (y bore hwnnw, bu'n rhaid iddo ymuno â'i ddosbarth dros y ffôn yn hytrach na thrwy ddolen fideo, er enghraifft) a theimlai fod Zoom o bosibl yn haws ei ddefnyddio na Microsoft Teams fel mecanwaith. Ond roedd dosbarthiadau rhithwir yn bendant wedi cynnig ffordd i addysg barhau, ar ôl bwlch cychwynnol o ran yr amrywiaeth traddodiadol o gyrsiau a gynhelir gan y gangen. Ychwanegodd Steve David fod prif swyddogaeth y Mudiad felly'n cael ei galluogi, a phwysleisiodd yr effaith gadarnhaol a gafwyd ar les, trwy gynnal cyswllt ymhlith grwpiau o ddysgwyr mewn canghennau a mannau eraill.

Cadarnhaodd Ray Neil fod y nerfusrwydd cychwynnol ynglŷn â defnyddio technoleg (ar bob ochr) wedi diflannu, a bod y potensial i ddefnyddio technoleg yn greadigol o ran cyfranogwyr yn ymuno o bob cwr o Gymru yn hwb ar gyfer chwalu cyfyngiadau daearyddol. Soniodd hefyd fod perthynas AOC|ALW â changen Llanelli yn dda, a bod swyddogion cenedlaethol wedi cael eu gwahodd i fynychu cyfarfod pwyllgor y gangen yn ddiweddarach yr wythnos honno. Dywedodd Kathryn Robson fod Zoom, fel platfform amgen yn lle Microsoft Teams, yn cael ei gyflwyno yn y Mudiad. Cynigiodd Suzanne Samuel greu dolenni rhwng cangen Llanelli a gwasanaethau addysg oedolion Cyngor Sir Gâr, yr oedd yn gweithio gyda nhw. Gadawodd Bill Griffiths a Ray Neil y cyfarfod ar yr adeg hon.

3. Diweddariad ar Brosiect Ymchwil

Cyflwynodd Kathryn Robson gefndir y prosiect, a thrwy gyflwyniad PowerPoint esboniodd Duncan Holtom waith y sefydliad *People and Work* yn gyffredinol, a chwmpas a diben y gwaith ymchwil penodol hwn, ar fanteision dysgu yn y gymuned, a sut i gynyddu ei effaith. Gan ddefnyddio data a chyfweliadau naratif, roedd y gwaith yn canolbwyntio ar 6 chategori gwahanol o ddysgwyr a'r potensial i ehangu darpariaeth iddynt. Roedd manteision dysgu oedolion yn amrywio rhwng unigolion, a gallai astudio tueddiadau gwleidyddol a chymdeithasol gynyddu ystod y gwaith y mae AOC|ALW yn ei wneud.

Adeg holi cwestiynau, gofynnwyd a oedd siaradwyr Cymraeg yn un o'r categorïau oedd yn cael ei dargedu yn y gwaith ymchwil, gan nad oedd hwnnw'n grŵp y darperir ar ei gyfer yn llwyddiannus ar hyn o bryd. Ymatebodd Duncan Holtom trwy ddweud nad oedd yn un o'r chwe grŵp, er bod y prosiect yn edrych ar ffactorau penodol, fel rhywedd neu anghenion arbennig, o ran eu dylanwad ar ddeilliannau o addysg oedolion. Roedd 20 o 30 cyfweliad cynlluniedig â dysgwyr wedi cael eu cynnal hyd yma, er ei bod yn fwy heriol dod o hyd i ddarpar ddysgwyr: roedd ffynonellau eraill yn cynorthwyo â llenwi'r garfan ymchwil benodol honno. Disgwyliwyd adroddiad terfynol ym mis Mawrth, ond roedd effeithiau'r pandemig yn golygu y byddai'r prosiect yn parhau y tu hwnt i hynny. Roedd y Cyngor yn edrych ymlaen at adroddiad llawnach wedi i'r gwaith gael ei gwblhau. Diolchwyd i Duncan Holtom am ei gyfraniad, a gadawodd y cyfarfod.

4. Aelodau Newydd o'r Cyngor

Croesawyd Judith Evans gan y Cadeirydd fel aelod a benodwyd yn ddiweddar ar y Cyngor, a Jan Tiley fel llywodraethwr dysgwyr etholedig newydd i'w cyfarfod cyntaf: fe wnaethon nhw gyflwyno eu hunain yn eu tro. Y gobaith oedd y byddai'r Grŵp Mudiad Gwirfoddol a grëwyd yn ddiweddar yn cyfrannu at lenwi gweddill y swyddi gwag, sef seddi etholedig Gogledd Ddwyrain a Gogledd Orllewin Cymru ar y Cyngor.

5. Cofnodion Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 25 Tachwedd 2020 a materion yn codi

Cymeradwywyd cofnodion trafodion Busnes Agored cyfarfod blaenorol y Cyngor, a gynhaliwyd trwy Microsoft Teams, yn gofnod cywir. Ymdriniwyd yn fras â dau fater yn codi: ar gofnod 5 (Setliad Cyflog 2020-21), diolchwyd i aelodau'r Cyngor am eu hymatebion cyflym a chadarnhaol i'r cynnig i ddarparu cyllid cyflog ychwanegol i diwtoriaid, a oedd wedi cael ei rhannu trwy e-bost yn fuan ar ôl cyfarfod blaenorol y Cyngor. Cadarnhawyd hefyd fod y Pwyllgor Chwilio wedi cymeradwyo cymhwyso'r setliad cyflog cytûn i'r ddwy swydd Uwch Ddeiliad Swydd o fewn y Mudiad (Prif Weithredwr a Chlerc). O ran cofnod 9 (Grŵp Mudiad Gwirfoddol), roedd ymdrechion yn cael eu gwneud i ffurfioli ei aelodaeth mewn pryd ar gyfer ei gyfarfod cyntaf, i'w gynnal cyn rownd cyfarfodydd y Fforymau Rhanbarthol ym mis Chwefror.

6. Adroddiad y Prif Weithredwr ar gyfer mis Ionawr 2021, gydag Adroddiad y Cwricwlwm a llythyr gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru

Wedi i Kathryn Robson gyflwyno'r prif bwyntiau yr ymdriniwyd â nhw yn yr Adroddiad, ar faterion personél ac ariannol, trowyd sylw at y llythyr dyddiedig 13 Ionawr 2021 gan Pedr ap Llwyd, Prif Weithredwr y Llyfrgell Genedlaethol. Roedd rhai aelodau yn ymwybodol o brinder ariannol a adroddwyd yn y Llyfrgell, ac eisiau sicrwydd na fyddai'r cyfraniad posibl hwn gan AOC|ALW yn llenwi bylchau ariannol yn unig, gan fod ansicrwydd ynglŷn â gallu'r sefydliad i reoli ei staff a'i gyllidebau wedi codi yn ddiweddar. Dangosodd deiseb gyhoeddus a oedd yn agored ar hyn o bryd y gefnogaeth helaeth i'r Llyfrgell a bod pryder cyffredinol ac ewyllys da tuag ati, ac roedd cefnogaeth wleidyddol barhaus yn golygu na fyddai'n methu fel sefydliad. Ond aeth aelodau eraill o'r Cyngor mor bell â dweud nad oedd gan y Llyfrgell yr un gwerthoedd ag AOC|ALW ac felly ni ddylid cydweithio â hi: roedd tôn eithaf dethol yr iaith a

ddefnyddiwyd yn y llythyr yn cefnogi'r farn honno yng ngolwg rhai pobl. Awgrymwyd bod Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn gorff cydweithredu amgen gwell fel corff a gydnabyddir gan yr UKRI (Ymchwil ac Arloesi yn y DU). Roedd pobl eraill yn credu bod y farn honno'n mynd yn rhy bell, tra'n derbyn bod y llythyr wedi'i eirio'n anffodus mewn mannau.

Roedd aelodau'n ansicr ynglŷn â beth roedd cynnwys y llythyr yn ei awgrymu o ran ein hymrwymiadau posibl, a'r prosiectau y cyfeirir atynt yno. Rhoddodd Kathryn Robson fwy o gefndir i'r cydweithio a grybwyllwyd, a oedd yn deillio o waddol Tudor Bowen Jones a'r llyfrgell yr oedd yn rhaid i AOC|ALW ei sefydlu i gydymffurfio ag ewyllys y cymwynaswr. Gyda'n nod i ddarparu deunyddiau cyfoes, wedi'u digideiddio i'w defnyddio ledled y wlad yn hytrach na mewn un lleoliad corfforol (neu nifer gyfyngedig ohonynt), aethpwyd ati i fanteisio ar arbenigedd y Llyfrgell Genedlaethol gan ei fod hefyd yn ceisio ehangu ei lefelau cyfranogiad. Roedd y prosiectau penodol a ddyfynnwyd yn y llythyr yn fodd o wneud hynny, a gallai AOC|ALW gyfrannu atynt. Y cynnig ychwanegol a wnaed i ni oedd y byddai ein tiwtoriaid, canghennau a staff yn gallu defnyddio'r Archif Ddarlledu Genedlaethol – nid gwasanaeth a oedd yn agored i boblogaeth Cymru gyfan fel rhan o gynnig cyffredinol y Llyfrgell Genedlaethol.

Cydnabuwyd bod defnyddio arian yr ewyllys yn unol â dymuniadau'r cymwynaswr yn achosi dipyn o her yn fewnol. Yr hyn y gofynnwyd i'r Cyngor ei wneud yma oedd awdurdodi'r Pwyllgor Adnoddau i edrych yn ddyfnach ar gynnig manylach, a fyddai'n darparu dull derbyniol a chyfreithiol o'n defnydd o incwm Cronfa Tudor Bowen Jones o'r gwaddol. **Cytunwyd y dylid cyflwyno'r cynnig ehangach hwn, yn ogystal â rhai dewisiadau eraill, gerbron y Pwyllgor Adnoddau i'w hystyried**.

Siaradodd Mark Baines am Adroddiad y Cwricwlwm a'r ffaith fod dros 50% o'n cynnig ar-lein wedi'i achredu. Mewn cyfathrebiad diwygiedig a dderbyniwyd yn ystod mis Ionawr, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai'r targed diwygiedig llai o ran cyflenwi addysgol ar gyfer y flwyddyn yn 65% mewn gwirionedd, y byddai AOC|ALW yn derbyn 100% o'r cyllid llawn a gytunwyd ar ddechrau'r flwyddyn ar ei gyfer. Roedd hwn yn drothwy derbyniol, o ystyried y cyfansymiau addysgu a gyflawnwyd yn ystod Tymor 1. Byddai Tymor 2 yn fwy heriol gan fod y cyfnod clo newydd wedi lleihau posibiliadau, ond roedd Estyn a Llywodraeth Cymru, ill dau, wedi mynegi boddhad â'r hyn roeddem yn ei gyflawni ar hyn o bryd.

Roedd rhai myfyrwyr yn Lloegr wedi cofrestru ar ein cyrsiau erbyn hyn, yn rhithwir: yn eu hachosion nhw, byddai tâl llawn yn cael ei godi am y cyrsiau, ac roedd y broses gofrestru wedi cael ei hegluro ar ein gwefan. Roedd trafodaeth yn parhau hefyd ag is-adran addysg oedolion Cyngor Sir Penfro, a oedd yn cynnig rhoi ei holl addysg na roddir blaenoriaeth iddi, i AOC|ALW (heb i unrhyw gyllid ychwanegol gronni i ni). Roedd trafodaethau cyfochrog â Llywodraeth Cymru ar y mater hwnnw yn cael eu cynnal, oherwydd ffactor perthnasol oedd y gallai fod yn gadarnhaol o ran ein rôl ganfyddedig fel y corff cydlynu cenedlaethol ar gyfer addysg oedolion. Fodd bynnag, roedd y diffyg ymrwymiad ariannol ychwanegol yn cynrychioli risg ddiamheuol i'r Mudiad. Hefyd, trafodwyd rhai pwyntiau'n ymwneud â data a chanrannau yn yr Adroddiad, a mater gwneud cytundebau â chyrff partner.

7. Cofrestr Risg ar gyfer Ionawr 2021; a Chyfrifon Rheoli ar gyfer 1 Awst - 30 Tachwedd 2020

Nodwyd y ddwy ddogfen hyn: ni wnaed unrhyw sylwadau ynglŷn â'r naill na'r llall ohonynt.

8. Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) yr Uwch Dîm Rheoli ar gyfer 2020; ac ar gyfer 2021

Yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Medi, cytunwyd mai'r flwyddyn galendr oedd y ffordd decaf o ran ailddosbarthu'r gweithgareddau hyn (er y cydnabuwyd, wrth gwblhau'r colofnau amrywiol, fod achosion lle y dylid nodi'r union flwyddyn ariannol neu academaidd er mwyn osgoi dryswch). O ystyried effeithiau

eithriadol Covid-19, ychwanegwyd lliw cod glas, ychwanegol at ddogfen 2020, yn dangos dangosyddion na chyflawnwyd yn benodol oherwydd y pandemig.

Crybwyllwyd cyrsiau cyfrwng Cymraeg a gostwng y targed o 5% i 2% o gyrsiau yn gyffredinol ar gyfer dogfen 2021: sef targed y bu tangyflawni arno yn y blynyddoedd diwethaf. Esboniodd Mark Baines sut roedd recriwtio tiwtoriaid hyfedr ychwanegol yn awgrymu bod rhagolygon gwell ar gyfer hyn, ond wedyn, holwyd pam roedd y targed yn un sylweddol is, er gwaethaf arwyddion o wella darpariaeth. Gofynnodd y Cyngor i swyddogion ailystyried beth ddylai'r targed hwn fod, o ystyried bod dulliau addysgu ar-lein, mewn gwirionedd, yn darparu potensial gwell ar gyfer ehangu. Tybiwyd p'un a oedd y wefan yn darparu dosbarthiad (a grwpio) clir o gyrsiau a oedd yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

O ran tôn dogfen 2021, roedd targedau ychydig yn llai uchelgeisiol yn gyffredinol, oherwydd ymarferoldeb y pandemig yn cyfyngu ar ein hadnoddau staff. Ar sail hynny, roedd neges wedi cael ei hanfon at bob un o'r staff i leihau eu baich gwaith a dal i fyny ar wyliau blynyddol heb eu hawlio yn ystod wythnos hanner tymor mis Chwefror. Mewn ateb i gwestiwn, cadarnhawyd roedd cwnsela yn cael ei drefnu i staff: roedd ymdeimlad gwahanol i'r trydydd cyfnod clo hwn o ran straen ar gydweithwyr ac ar wasanaethau cyhoeddus yn fwy cyffredinol.

Nododd y Cyngor adroddiad 2020 a derbyniodd y dylai fod hyblygrwydd o ran ffigurau 2021, gan ddod ag unrhyw ddiwygiadau i sylw'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn y lle cyntaf. Byddai'r Cyngor yn derbyn diweddariadau ar y Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar ddwy adeg arall yn ystod y flwyddyn.

9. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau ar 8 Rhagfyr 2020

Nododd Steve Nicholls, Cadeirydd y Pwyllgor, y cyflwyniad blynyddol cadarnhaol o fuddsoddiadau gwaddol, y byddai eu canllawiau proffil risg yn cael eu hadolygu yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Mawrth. Byddai'r cyfarfod hwnnw'n edrych ar sefyllfa cronfeydd wrth gefn y Mudiad hefyd, a chynigion ar gyfer eu defnyddio, gyda'r bwriad o wneud argymhellion i'r Cyngor arnynt. Gwnaeth sylwadau ar y cyfrifon blynyddol ar gyfer 2019-20 mewn perthynas â'r sefyllfa dyledion pensiynau yn unig, a'r ffaith fod y Mudiad yn yr un sefyllfa ynghylch dyledion damcaniaethol sylweddol â nifer o gyrff addysg bellach eraill. Nid oedd dyfarniad McCloud/Sergeant ar y mater pensiynau wedi cynorthwyo yn hynny o beth.

10. Drafft terfynol yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2020

Roedd Mark Baines wedi paratoi cyflwyniad PowerPoint ar yr eitem hon, a welwyd yn y blwch sgwrsio ym mhorthol Microsoft Teams y cyfarfod. Roedd pwyntiau allweddol ohono eisoes wedi cael eu trafod yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor Adnoddau, a chyfarfodydd diweddar y Cyngor hefyd: natur diamod adroddiad yr archwilwyr allanol oedd yr un elfen allweddol a grybwyllwyd ar yr achlysur hwn. **Cymeradwyodd y Cyngor yr Adroddiad yn y fformat hwn i fynd gerbron y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 30 Mawrth 2021 i'w gadarnhau yn derfynol**.

11. Cofnodion y Pwyllgor Archwilio ar 14 Rhagfyr 2020, yn ogystal ag adroddiad blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor i'r Cyngor

Nododd Chris Franks nad oedd yna unrhyw beth anffafriol i adrodd amdano o'r sesiwn breifat a gynhaliwyd gyda'r archwilwyr allanol a mewnol, a bod ei adroddiad fel Cadeirydd yn rhoi crynodeb cywir a chadarnhaol ar y cyfan o'r rheolaethau a'r sicrwydd a oedd ar waith. Mewn ateb i gwestiwn, cadarnhawyd y byddai'r Pwyllgor Archwilio, yn ei gyfarfodydd tymhorol, yn dilyn yr argymhellion a

welwyd yn y ddau adroddiad archwilio mewnol a wnaed yn 2020 oedd â 'sicrwydd rhesymol' yn unig – cyswllt â changhennau, a chymhwyso amodau'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

12. Ail-awdurdodi pwerau dirprwyedig ar gyfer Pwyllgorau'r Cyngor

Ail-awdurdododd y Cyngor y pwerau cyfredol a ddirprwywyd i 4 pwyllgor y Cyngor a sefydlwyd yn swyddogol, a chymeradwyodd tri newid manwl iddynt; trosglwyddo'r rôl ar gyfer recriwtio'r Uwch Dîm Rheoli / adolygu eu telerau ac amodau o'r Pwyllgor Adnoddau i'r Pwyllgor Chwilio; a diwygio geiriad i adlewyrchu'r newidiadau a gyflwynwyd yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Tachwedd yn ymwneud â'r Grŵp Iechyd, Diogelwch ac Amgylcheddol (Pwyllgor Adnoddau) ac i'r Grŵp Mudiad Gwirfoddol (Pwyllgor Profiad y Dysgwyr).

13. Hunanasesiad o drafodion y cyfarfod gan aelodau'r Cyngor

Rhoddodd y ddau aelod newydd eu hargraffiadau o'r cyfarfod. Er bod y dechnoleg yn weddol i'w thrin, nid oedd modd gwadu ffafriaeth am gyfarfodydd wyneb yn wyneb. Rhoddodd Daryl Leeworthy rybudd ymlaen llaw na fyddai'n adnewyddu cyfnod ei swydd pan fyddai'r cyfnod yn dod i ben ym mis Ionawr 2022, a holodd yn ehangach am weithrediaeth effeithiol cynrychiolaeth ranbarthol y Cyngor a Fforymau Rhanbarthol, o ystyried bod seddi rhanbarthau'r Gogledd Ddwyrain a'r Gogledd Orllewin wedi parhau'n wag ers cyfnod hir.

14. Gweddill dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2021

Rhagwelwyd cyfarfodydd rhithwir, fel a ganlyn (gan ddechrau am 12.30 p.m.):

- Dydd Iau 11 Mawrth
- Dydd Mawrth 30 Mawrth (Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a Llywio'r Dyfodol – dechrau yn y bore)
- Dydd Mawrth 18 Mai
- Dydd Iau 27 Gorffennaf (eto i'w gadarnhau)

PWYNTIAU GWEITHREDU

Cyfeiriad	Enw'r cofnod	Gweithredu a gytunwyd	Gweithredu gan bwy	Gweithredu erbyn pryd
Cofnod 6	Cydweithredu â Llyfrgell Genedlaethol Cymru	Cytunwyd y dylid dod â chynnig ehangach, yn ogystal â dewisiadau eraill gerbron y Pwyllgor Adnoddau i'w hystyried.	KR	Mawrth 2021
Cofnod 8	Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) yr Uwch Dîm Rheoli ar gyfer 2020; ac ar gyfer 2021	Nododd y Cyngor ffigurau 2020 a derbyn y dylai fod hyblygrwydd o ran ffigurau 2021, gan ddod ag unrhyw ddiwygiadau gerbron yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn y lle cyntaf.	KR / MB / CH	Mawrth 2021
Cofnod 10	Drafft terfynol yr Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol ar gyfer y flwyddyn yn	Cymeradwyodd y Cyngor yr Adroddiad yn y fformat hwn i fynd gerbron y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 30 Mawrth 2021 i'w gadarnhau yn derfynol.	MB / Adele Gatt / ST	Mawrth 2021

	gorffen 31 Gorffennaf 2020			
Cofnod 12	Ail-awdurdodi pwerau dirprwyedig ar gyfer Pwyllgorau'r Cyngor	Ail-awdurdododd y Cyngor y pwerau cyfredol a ddirprwywyd i 4 pwyllgor y Cyngor a sefydlwyd yn swyddogol, a chymeradwyodd tri newid manwl iddynt; trosglwyddo'r rôl ar gyfer recriwtio'r Uwch Dîm Rheoli / adolygu eu telerau ac amodau o'r Pwyllgor Adnoddau i'r Pwyllgor Chwilio; a diwygio geiriad i adlewyrchu'r newidiadau a gyflwynwyd yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Tachwedd yn ymwneud â'r Grŵp Iechyd, Diogelwch ac Amgylcheddol (Pwyllgor Adnoddau) ac i'r Grŵp Mudiad Gwirfoddol (Pwyllgor Profiad y Dysgwyr).	ST	Chwefror 2021